------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(225)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd (60 munud)**
**NDM5601 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 14 Hydref 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5604 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi, er gwaethaf y cyllid ychwanegol ar gyfer prentisiaethau yn y ddau gytundeb diwethaf ar y gyllideb, fod toriadau yn ystod y flwyddyn o £10.7 miliwn wedi gadael darparwyr dysgu yn nhir neb.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi nifer y prentisiaethau a grëwyd ers 2011.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd yr astudiaeth derfynol o gylch gorchwyl Twf Swyddi Cymru yn cynnwys gwerthusiad o'r sgiliau a ddatblygodd cyfranogwyr.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu cyhoeddiad cyllidebol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru o £10 miliwn ychwanegol i ddarparu tua 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod yr effaith sylweddol a chadarnhaol a gafodd y cytundeb ar gyllideb 2013/14 rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar bobl ifanc ac yn gresynu at

benderfyniad y Llywodraeth i gymryd cam yn ôl a thorri'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5606 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r amodau economaidd sy'n gynyddol anodd i ffermwyr;

2. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r uchafswm o 15% o golofn 1 i golofn 2 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynyddu ei hymdrechion i leihau biwrocratiaeth yn y diwydiant;

b) cymryd camau ymarferol a chyflym i gefnogi'r sectorau cig coch a llaeth yng Nghymru; ac

c) cyflwyno cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol  i helpu'r rhai sy'n ffermio o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi proffil oedran uchel ffermwyr Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella prosesau cynllunio ar gyfer olyniaeth a ffermio ar y cyd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith nad oes Ardal â Chyfyngiadau Naturiol benodedig yn rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig; penderfyniad sydd â'i wreiddiau mewn dewisiadau a

wnaed gan Lywodraeth Cymru'n Un.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri'r gyllideb Amaethyddiaeth a Bwyd o 17.8% a'r gyllideb Iechyd Anifeiliaid o 20.7% yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer swydd benodol yn y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Amaethyddiaeth a Bwyd.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd i neilltuo rhan amlwg o'u harwynebedd llawr ar gyfer cig ansawdd uchel o Gymru sydd â statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig a chig Tractor Coch Prydeinig.

**Gwelliant 6 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai lleoli lladd-dy cig eidion a chig oen yng ngogledd Cymru yn sicrhau cynaliadwyedd cynhyrchu cig coch yng ngogledd Cymru.

**Gwelliant 7 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll hybu cig er mwyn sicrhau bod yr ardoll yn daladwy i'r wlad lle cafodd yr anifail ei eni.

**Gwelliant 8 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod canran uwch o'r cynnyrch a brynir drwy brosesau caffael cyhoeddus yn dod o Gymru.

**Gwelliant 9 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar gylch gorchwyl yr adolygiad annibynnol o'r diwydiant llaeth yng Nghymru i gynnwys datblygu cynllun gweithredu strategol cynhwysfawr i gefnogi'r diwydiant llaeth.

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5603 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd porthladdoedd i economi Cymru.

2. Yn nodi y gallai cynnydd mewn morgludiant byr ym mhorthladdoedd Cymru sicrhau manteision yn y tymor hir.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda WEFO ar ddatblygiadau isadeiledd a rôl porthladdoedd yn y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan Borthladdoedd Cysylltiedig Prydain y gallai llwybr du arfaethedig yr M4 gael effaith ddifrifol ar fasnach yn Nociau Casnewydd.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn croesawu argymhelliad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru bod y cyfrifoldeb dros borthladdoedd yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi statws Caergybi yn rhaglen TEN-T yr Undeb Ewropeaidd fel porthladd cynhwysfawr yn hytrach na phorthladd Ewropeaidd craidd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried pob opsiwn er mwyn sicrhau nad yw'r statws eilradd hwn yn ei rwystro rhag tyfu.

**7 Cyfnod Pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
**Lynne Neagle (Torfaen)**

Ffrindiau Dementia - Gweithio tuag at gymunedau sy'n ystyriol o ddementia ledled Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Tachwedd 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2014 i'w hateb ar 22 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni drwy driniaeth thermol uwch (pyrolysis)? OAQ(4)0211(NR)

2. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol parciau cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0202(NR)

3. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses apelio o ran dosbarthu tir ar gyfer taliadau Cynllun y Taliad Sengl? OAQ(4)0212(NR)

4. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyraniad cyllid y Gronfa Natur? OAQ(4)0215(NR)**W**

5. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar darged Cyfoeth Naturiol Cymru i blannu 100,000 hectar o goetir erbyn 2030? OAQ(4)0206(NR)**W**

6. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â llysiau'r dial? OAQ(4)0203(NR)

7. **Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ailgylchu gwastraff organig yng Nghymru? OAQ(4)0207(NR)

8. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i atal y clefyd llarwydd rhag lledaenu? OAQ(4)0201(NR)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu'r gofynion ynghylch ailgyfeirio llwybrau cyhoeddus lle maent yn rhwystro arallgyfeirio ar ffermydd? OAQ(4)0217(NR)**W**

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i barciau cenedlaethol? OAQ(4)0205(NR)

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arbed ynni yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)0213(NR)**W**

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth sydd ar gael i ffermwyr yr ucheldiroedd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed drwy Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0209(NR)

**13. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu'r fframwaith statudol ar gyfer mynediad i gefn gwlad? OAQ(4)0216(NR)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar atal llifogydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0210(NR)

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0204(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amcanion cyllid Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0228(CTP)

**2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r trydydd sector yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0229(CTP)

**3. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argaeledd tai addasol i bobl anabl? OAQ(4)0227(CTP)

**4. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch diwygio lles ers ei phenodiad? OAQ(4)0241(CTP)**W**

**5. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar asedau o werth cymunedol? OAQ(4)0245(CTP)**W**

**6. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0233(CTP)

**7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0230(CTP)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i greu cymunedau bywiog a chynaliadwy yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0244(CTP)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hawliau plant a phobl ifanc yn sgil adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant? OAQ(4)0238(CTP)**W**

**10. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y toriadau arfaethedig i'r gyllideb yn effeithio ar dlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0236(CTP)

**11. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y gallai toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol ei chael ar y sector gwirfoddol? OAQ(4)0242(CTP)

**12. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0232(CTP)

**13. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa strategaethau y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio i sicrhau bod Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a mentrau gwrthdlodi eraill yn cydweithio mewn ffordd briodol? OAQ(4)0235(CTP)

**14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yng Nghanol De Cymru yn 2015/16, yn sgil cyhoeddi'r gyllideb ddrafft? OAQ(4)0239(CTP)

**15. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0231(CTP)